



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG 46403

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal
Cymdeithasol, Cymru

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r prif feysydd a ganlyn:

- Cod Ymarfer Drafft ar Fynediad i Safleoedd
- Canllawiau Statudol Drafft ar Sylwadau
- Canllawiau Drafft ar gyfer Newidiadau i Wasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Gorffennaf 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniodd Llywodraeth Cymru i'n hymgyngoriad:

WG 46403 – Sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 13 Rhagfyr 2022 a daeth i ben ar 6 Mawrth 2023. Cafwyd 46 o ymatebion i'r ymarfer hwn gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â buddiant.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn ymdrin â chanlyniad ymgynghoriad penodol pellach ar y Cod Ymarfer ar fynediad i'r safle gyda Chorff Llais y Dinesydd ar ôl i'w bwerau llawn gael eu trosglwyddo iddo, a gynhaliwyd rhwng 19 Mai ac 16 Mehefin 2023.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Corff Llais y Dinesydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: cvbinfo@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfen yr ymgynghoriad: [Corff Llais y Dinesydd - canllawiau ar fynediad, sylwadau a newidiadau i wasanaethau'r GIG | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Adran 1.....	4
1.1 Cyflwyniad.....	4
1.2 Y cyd-destun a'r sail resymegol	4
1.3 Yr ymgynghoriad, y gynulleidfa ac ymgysylltu	8
1.4 Ymateb i'r ymgynghoriad.....	9
Adran 2 – Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru .	11
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr	22

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

Mae Gweinidogion wedi nodi'n glir eu huchelgais i Gymru fod yn wlad lle bydd llais y dinesydd yn cyfrannu at ddatblygu iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Ers mis Ebrill 2023, mae Corff Llais y Dinesydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod ar waith, er mwyn mynd ati'n annibynnol i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol. Ymhlith ei rolau, mae'n ceisio ac yn gwrando ar farn defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol, a bydd yn cyflwyno sylwadau i gyrff y GIG ac i awdurdodau lleol ynglŷn â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, gan helpu i sicrhau y bydd profiadau pobl yn ysgogi gwelliannau parhaus mewn cynlluniau a pholisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae Gweinidogion wedi nodi'n glir ei bod yn hollbwysig i Gorff Llais y Dinesydd gael mynediad at y rhai sy'n dymuno rhannu eu barn, ac mae hi'n hollbwysig hefyd cael dulliau a fydd yn sicrhau y rhoddir y pwys a'r sylw priodol i'r sylwadau a gyflwynir – yn cynnwys sylwadau'n ymwneud â newidiadau i wasanaethau iechyd a gofal. I ategu hyn, a hefyd i bennu'n glir y disgwyliadau perthnasol, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddatblygu Cod Ymarfer ar Fynediad i Safleoedd, canllawiau statudol ar sylwadau a chanllawiau diwygiedig ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

1.2 Y cyd-destun a'r sail resymegol

Mae amcanion 'Cymru Iachach' yn adlewyrchu'r nod o sicrhau cysylltiad agosach rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd. Mae'r ddogfen hon yn pennu'r nod o sicrhau y rhoddir dinasyddion wrth galon a chraidd dull system gyfan o ymdrin â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw gwrando ar leisiau pawb trwy ymgysylltu'n barhaus. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ('Deddf 2020') wedi disodli Cynghorau Iechyd Cymuned (a oedd yn arfer cynrychioli llais cleifion mewn gwasanaethau iechyd yn unig) gyda chorff cenedlaethol newydd – sef Corff Llais y Dinesydd, sy'n cael ei adnabod yn weithredol fel Llais – sy'n arfer swyddogaethau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau'r corff newydd yw:

- cryfhau llais y dinesydd yng Nghymru mewn materion yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan wneud yn siŵr bod gan ddinasyddion ddull effeithiol o sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed;
- sicrhau bod unigolion yn cael cyngor a chymorth wrth wneud cwyn yn ymwneud â'u gofal; a
- defnyddio profiadau'r defnyddiwr gwasanaethau i ysgogi gwelliant. Mae'r corff newydd hwn wedi'i sefydlu ar ffurf corff cenedlaethol, ond bydd ei strwythur yn golygu y bydd modd iddo gyflawni ei swyddogaethau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Mae Deddf 2020 yn rhoi dyletswyddau ar y corff newydd, ar gyrff y GIG ac ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i gydweithredu, gyda'r bwriad o weld y naill yn cynorthwyo'r llall wrth iddynt arfer eu swyddogaethau perthnasol. O ran Corff Llais y Dinesydd, mae ei swyddogaethau'n cynnwys ceisio barn y cyhoedd ynglŷn â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a chymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Gorff Llais y Dinesydd. O ran awdurdodau lleol a chyrrff y GIG, mae eu swyddogaethau'n cynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth o weithgareddau Corff Llais y Dinesydd ymhlith pobl sy'n derbyn, neu a allai dderbyn, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, sef gwasanaethau mae gan awdurdodau lleol a chyrrff y GIG ddyletswydd i'w darparu.

Er mwyn ategu hyn ymhellach, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â cheisiadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd am fynediad i safleoedd iechyd a gofal cymdeithasol i geisio barn unigolion, a phan gytunir i roi mynediad, i ymgysylltu ag unigolion ar y safleoedd hynny at y diben hwnnw. Hefyd, mae ganddynt ddyletswydd i gyhoeddi canllawiau statudol y bydd rhaid i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol roi sylw iddynt wrth ddelio â sylwadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd. Ategir hyn gan ganllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer cyrrff y GIG yn sôn am fwrw ymlaen â newidiadau i wasanaethau – canllawiau a ddiwygiwyd er mwyn ystyried rôl newidiol Corff Llais y Dinesydd.

Cyflwynodd y prif ymgynghoriad ddrafftiau o'r tair dogfen hyn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r canllawiau statudol ar sylwadau ar neu erbyn 1 Ebrill 2023, a'r bwriad hefyd yw diwygio a chyhoeddi'r canllawiau ar gyfer newidiadau i wasanaethau o fewn amserlen debyg. Mae'r Cod Ymarfer ar Fynediad i Safleoedd sy'n cyd-fynd â hwn wedi'i gadarnhau, yn barod i'w gyhoeddi ar neu erbyn 1 Gorffennaf 2023, yn dilyn ymgynghoriad penodol pellach gyda Chorff Llais y Dinesydd ar ôl i'w bwerau llawn gael eu trosglwyddo iddo, a fydd yn digwydd ar ôl 1 Ebrill 2023. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y tair dogfen hyn isod.

Cod Ymarfer ar Fynediad i Safleoedd

Mae Adran 19(1) o Ddeddf 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â cheisiadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd am fynediad i safleoedd er mwyn ceisio barn unigolion ynglŷn â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, a phan gytunir i roi mynediad i'r safleoedd hynny, i ymgysylltu ag unigolion ar y safleoedd hynny at y diben hwnnw.

Cafodd y fersiwn ddrafft o'r Cod yr ymgynghorwyd arni ei datblygu gan Weinidogion Cymru ar ôl rhoi sylw i gyfraniadau gan randdeiliaid, yn cynnwys cynrychiolwyr Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned a darparwyr gwasanaethau. Ei amcan oedd sicrhau y gall llais unigolion ar y cyd lywio'r modd y cynllunnir ac y darperir gwasanaethau er mwyn gweddu'n well i'w hanghenion, a'i ddiben oedd darparu fframwaith ar gyfer cael mynediad i safleoedd ac ymgysylltu ar draws amrywiaeth o leoliadau lle darperir gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae 'safle/safleoedd' yn golygu unrhyw safle lle darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol. 'Gwasanaethau iechyd' yw gwasanaethau a ddarperir o dan neu yn rhinwedd Deddf GIG (Cymru) 2006 ar gyfer neu mewn cysylltiad ag atal, diagnosis neu drin salwch, neu hyrwyddo ac amddiffyn iechyd y cyhoedd. 'Mae 'gwasanaethau cymdeithasol' yn golygu gwasanaethau a ddarperir (naill ai yng

Nghymru neu mewn mannau eraill) wrth i awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o ran gwasanaethau cymdeithasol. Felly, gallai 'safle/safleoedd' gynnwys safleoedd lle caiff gwasanaethau iechyd a/neu wasanaethau cymdeithasol eu comisiynu a'u darparu gan drydydd parti neu lle darperir y gwasanaethau hynny yng nghartrefi / anheddau preifat pobl.

Mae'r cod yn nodi:

- proses ar gyfer cyflwyno ceisiadau;
- ffactorau y dylai awdurdodau lleol a chyrrff y GIG eu pwysu a'u mesur wrth ystyried caniatáu mynediad; gallai'r ffactorau hyn fod yn berthnasol i ddarparwyr a gomisiynir hefyd;
- ffactorau y dylai Corff Llais y Dinesydd eu hystyried wrth ofyn am gael ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain; a
- ffactorau i'w hystyried wrth gynnal ymweliadau'n gyffredinol.

Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw bob amser i'r cod a rhaid i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru roi sylw i'r cod (i'r graddau y bo'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, megis wrth gomisiynu trydydd parti i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Gan fod modd i Gorff Llais y Dinesydd gyflwyno ceisiadau am fynediad i unrhyw safle lle darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, efallai hefyd y bydd cyrrff sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar ran cyrrff y GIG ac awdurdodau lleol yn derbyn ceisiadau am fynediad, a dylent roi ystyriaeth i'r Cod wrth ystyried ceisiadau o'r fath. Hefyd, mae'r cod yn ystyried amgylchiadau pan fydd Corff Llais y Dinesydd yn dymuno ymweld â phobl yn eu hanheddau preifat; mewn achosion o'r fath, nododd ffactorau penodol y dylai Corff Llais y Dinesydd roi sylw iddynt. Yn olaf, nododd y ddogfen ganlyniadau posibl os methir â rhoi sylw i'r Cod.

Yn yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r cod, dylid rhoi'r pwys mwyaf i fuddiannau a dymuniadau unigolion sy'n derbyn gwasanaethau'r GIG neu wasanaethau cymdeithasol, ac y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt.

Canllawiau Statudol ar Sylwadau

Mae Adran 15 o Ddeddf 2020 yn galluogi Corff Llais y Dinesydd i gyflwyno sylwadau i gyrff y GIG ac i awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymwneud ag unrhyw beth sydd, yn ei dyb ef, yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi'r Corff i ddatgan unrhyw farn y gofynnwyd i'r cyhoedd amdani a chynrychioli'r farn honno, neu gyflwyno sylwadau ar faterion eraill sydd wedi dod i'w sylw, i'r cyrrff sy'n gyfrifol am ddarparu a threfnu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Diben cyffredinol y sylwadau hyn yw ategu'r broses o gyd-ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy atgyfnerthu ac ymhelaethu ar lais y dinesydd ochr yn ochr â llais gweithwyr proffesiynol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â datblygu, gwella, newid neu derfynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhaid i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol roi sylw i sylwadau Corff Llais y Dinesydd wrth iddynt arfer unrhyw swyddogaeth sy'n berthnasol i'r sylwadau. Yn gyffredinol, golyga hyn fod yn rhaid iddynt, wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n berthnasol i'r sylwadau, roi ystyriaeth i'r sylwadau a dangos sut aethant ati i wneud hynny.

Er enghraifft, bydd hyn yn golygu cael swyddogion cyfrifol i ystyried yr holl sylwadau'n gydwobodol, a phan fo'r sylwadau hynny'n berthnasol i benderfyniadau a wneir gan benderfynwyr perthnasol, eu defnyddio i lywio'r cyngor a roddir i'r penderfynwyr hynny.

Mae Adran 15(4) o Ddeddf 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol yn ymwneud â sylwadau a wneir o dan Adran 15 o'r Ddeddf. O dan Adran 15(5), rhaid i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn.

Bwriad Gweinidogion Cymru yw y bydd y canllawiau statudol hyn yn helpu i sicrhau bod gan gyrff y GIG ac awdurdodau lleol weithdrefnau gweithredol, cymesur ar waith ar gyfer ystyried sylwadau ac ymateb iddynt. Nododd y canllawiau drafft y disgwyliad y bydd gyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod system glir ar waith ar gyfer delio â sylwadau – system sy'n gymesur â'r materion a grybwyllir;
- hysbysu Corff Llais y Dinesydd ynglŷn â'r cynnydd o ran delio â'r sylwadau; a
- sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd yn cael gwybod pa ganlyniad a fydd wedi deillio o'r sylwadau.

Ystyriodd y canllawiau drafft hefyd sylwadau a gyflwynwyd i gyrff y GIG ac i awdurdodau lleol yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gomisiynir ganddynt ac a ddarperir gan drydydd parti, y lle sydd gan sylwadau yn y diwylliant cydweithredu cyffredinol rhwng Corff Llais y Dinesydd a chyrff y GIG ac awdurdodau lleol, a sylwadau sy'n rychwantu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn olaf, ystyriodd hefyd ganlyniadau posibl methu â rhoi sylw i'r canllawiau statudol.

Canllawiau ar newidiadau i wasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

O ran y gwasanaethau a gaiff eu darparu neu eu caffael gan Fyrddau Iechyd Lleol, mae Adran 183 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol gynnwys dinasyddion ac ymgysylltu â dinasyddion wrth iddynt wneud y canlynol:

- Cynllunio i ddarparu'r gwasanaethau maent yn gyfrifol amdanynt;
- Datblygu ac ystyried cynigion ar gyfer newid y ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu; a
- Gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y modd y bydd y gwasanaethau hynny'n gweithredu.

Mae Adran 242 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn ymestyn y gofyniad hwn i Ymddiriedolaethau'r GIG.

Roedd y ddogfen ddrafft yn anelu at gynnig canllawiau i'r GIG yng Nghymru ynglŷn â chyflwyno newidiadau i wasanaethau iechyd o dan y darpariaethau hyn. Y bwriad oedd y byddai'r canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau blaenorol, a chawsant eu diweddarau er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei sefydlu, sef y sefydliad a ddisodlodd y Cynghorau Iechyd Cymuned ym mis Ebrill 2023.

Yn gysylltiedig â hyn, gall Corff Llais y Dinesydd gyflwyno sylwadau i gyrrff y GIG ynghylch ystod o faterion yn ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â newidiadau i wasanaethau'r GIG. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn, yn cynnwys dyletswyddau cyrrff y GIG i roi sylw i'r sylwadau hyn, yn y Canllawiau Statudol ar Sylwadau a gyhoeddwyd o dan adran 15(4) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Nododd y canllawiau drafft egwyddorion cyffredinol o ran rheoli newidiadau i wasanaethau yn y GIG, a nodir pa mor bwysig yw hi i sefydliadau'r GIG ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd a gweithio mewn partneriaeth â'u cymunedau er mwyn datblygu cynigion mewn modd gwirioneddol gydgynhyrchiol. Os caiff cynigion eu datblygu a'u cynllunio trwy gyd-gynhyrchu, maent yn fwy tebygol o gael cefnogaeth ac yn fwy tebygol o esgor ar welliannau mewn gofal ac ymateb i anghenion y cleifion a'r cymunedau a wasanaethir gan y GIG.

Roedd y canllawiau hefyd yn ymdrin ag ymgysylltu parhaus, gan bwysleisio pa mor bwysig yw tryloywder, tystiolaeth ac arweinyddiaeth gadarnhaol, ynghyd â phwysleisio rôl Corff Llais y Dinesydd fel rhanddeiliad allweddol. Nododd bethau y dylid eu hystyried pan fo angen i fwy nag un o sefydliadau'r GIG weithio gyda'i gilydd i ymgysylltu, cynllunio a chyflawni newidiadau rhanbarthol neu genedlaethol i wasanaethau.

Ystyriodd y canllawiau newidiadau sylweddol, gan nodi y dylai lefel yr ymgysylltu a'r ymgynghori fod yn gymesur â'r math o newid sy'n cael ei ystyried neu ei gynnig, a hefyd perthynas strategaethau gwasanaethau clinigol a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig i newid arfaethedig. Ystyriodd hefyd drefniadau arbennig pan fo sefydliad y GIG o'r farn bod angen gwneud penderfyniad ynglŷn â mater yn syth er lles y gwasanaeth iechyd neu oherwydd rhyw risg i ddiogelwch neu lesiant cleifion neu staff. Yn olaf, ystyriodd y canllawiau sefyllfaoedd pan anghytunir â chynigion ar gyfer newid gwasanaethau ac ymatebion posibl.

1.3 Yr ymgynghoriad, y gynulleidfa ac ymgysylltu

Yn ogystal â bod ar gael yn rhwydd i bawb drwy wefan Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd [Datganiad Ysgrifenedig](#) pan gyhoeddwyd yr ymgynghoriad, ac anfonodd Llywodraeth Cymru e-bost ar 16 Rhagfyr 2022 i ystod eang o sefydliadau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, a chomisiynwyr statudol yn eu hysbysu am yr ymgynghoriad.

Gwahoddwyd ymatebwyr i gyflwyno eu barn ar-lein neu drwy e-bost.

Crëwyd crynodeb Hawdd ei Ddeall a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad hefyd.

Gan fod adran 19 o Ddeddf 2020 yn ei gwneud hi'n ofynnol ymgynghori â Chorff Llais y Dinesydd ar y cod ymarfer, cynhaliwyd ymgynghoriad penodol pellach â Chorff Llais y Dinesydd ar ôl i'w bwerau llawn gael eu trosglwyddo iddo ar ôl 1 Ebrill 2023 (19 Mai i 16 Mehefin 2023). Mae'r ddogfen hon hefyd yn ymdrin â phwyntiau allweddol sy'n codi o'r ymgynghoriad hwn.

1.4 Ymateb i'r ymgynghoriad

Daeth cyfanswm o 46¹ o ymatebion sylweddol i'r ymgynghoriad i law Llywodraeth Cymru. Ni ymatebodd bob ymgynghorai i'r holl gwestiynau. Dyrannwyd ymatebion i y tu mewn i Gymru/y tu allan i Gymru yn seiliedig ar wybodaeth sefydliadol adnabyddadwy neu dystiolaeth glir o fewn yr ymateb ei hun. Mae unrhyw ymatebion eraill (ymatebion unigol yn bennaf) wedi'u cofnodi fel rhai 'anhysbys'. Cafwyd 33 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau yr ymddengys eu bod wedi'u lleoli yng Nghymru neu sydd â gweithgareddau ledled y DU (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn y crynodeb hwn fel 'o'r tu mewn i Gymru'); ni nodwyd bod unrhyw ymatebion wedi dod gan sefydliadau neu unigolion o'r tu allan i Gymru. Mewn 13 achos, nid yw'n glir a oedd yr ymatebydd wedi'i leoli yng Nghymru.

Dyweddodd 14 o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt pe na bai eu henwau a'u cyfeiriadau'n cael eu cyhoeddi. Nid oes unrhyw ymatebwyr wedi'u hadnabod yn y ddogfen.

O ran o ba sector y daeth ymatebion, dewisodd ychydig llai na thraean o'r ymatebwyr i beidio â nodi natur eu cysylltiad â'r pynciau yn yr ymgynghoriad. Lle nad oedd modd nodi (o'r maes 'sefydliad' yn yr ymateb, o'r defnydd o gyfeiriad e-bost sefydliadol adnabyddadwy, neu o dystiolaeth glir o fewn yr ymateb ei hun) bod ymatebydd yn ymateb ar ran sefydliad, rhestrwyd yr ymatebion hyn fel ymatebion unigol.

- Cafwyd 1 ymateb gan ddarparwr gofal cymdeithasol. Roedd yr ymatebydd o'r tu mewn i Gymru. Gofynnodd yr ymatebydd am i enw a chyfeiriad ei sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi.
- Cafwyd 15 ymateb gan gyrff cyhoeddus, gydag 1 ohonynt gan awdurdod lleol, 7 gan gyrff GIG neu dimau'r GIG, 5 gan gyrff rheoleiddio, a 2 gan gomisiynwyr statudol. Roedd y rhain i gyd o'r tu mewn i Gymru neu gan sefydliadau o'r tu allan i Gymru a oedd yn gweithredu ledled y DU. Gofynnodd 2 o'r ymatebion hyn am beidio â chyhoeddi enwau a chyfeiriadau eu sefydliad.
- Derbyniwyd 4 ymateb gan gyrff cynrychiadol, gyda 2 ohonynt gan gyrff cynrychiadol ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus, a 2 gan gyrff cynrychiadol ar gyfer darparwyr. Roedd y rhain i gyd yn dod o'r tu mewn i Gymru. Nid oedd yr un o'r ymatebion hyn yn gofyn am beidio â chyhoeddi enwau a chyfeiriadau eu sefydliad.

¹ Daeth cyfanswm o 48 o ymatebion i law. Cyflwynodd un sefydliad ymateb i'r ymgynghoriad, gyda'r ymateb cychwynnol yn cael ei dynnu'n ôl. Dychwelwyd un ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn wag. Mae'r ymateb gwag a'r ymateb dyblyg cyntaf wedi'u heithrio o'r dadansoddiad hwn.

- Cafwyd 10 ymateb gan sefydliadau'r trydydd sector / sector gwirfoddol (gan gynnwys Cynghorau Iechyd Cymuned), gyda phob un ohonynt o'r tu mewn i Gymru neu'n gweithredu ledled y DU. Nid oedd yr un o'r ymatebion hyn yn gofyn am beidio â chyhoeddi enwau a chyfeiriadau eu sefydliad.
- Cafwyd 1 ymateb gan unigolyn y gellid nodi bod ei berthynas â gofal cymdeithasol neu ofal iechyd yn un defnyddiwr gwasanaethau ar hyn o bryd, o'r tu mewn i Gymru. Gofynnodd yr ymateb am beidio â chyhoeddi enw a chyfeiriad personol yr unigolyn.
- Cafwyd 15 o ymatebion gan unigolion nad oeddent yn nodi'n glir eu perthynas â'r pynciau yn yr ymgynghoriad. Roedd yn ymddangos bod dau o'r rhain yn dod o'r tu mewn i Gymru; mewn 13 achos, nid oedd yn glir a ddaeth yr ymatebion o'r tu mewn neu'r tu allan i Gymru. Gofynnodd 8 o'r ymatebion am beidio â chyhoeddi enwau a chyfeiriadau, i gyd lle nad oedd tarddiad yr ymateb yn glir.

Adran 2

2.1 Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u dadansoddi gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac yn cael eu cyflwyno fel crynodeb o dan bob cwestiwn.

Cwestiwn 01: Yn y Cod Ymarfer drafft ar Fynediad, rydym wedi anelu at ategu'r defnydd a wneir o ymweliadau i geisio barn pobl, gan ystyried ar yr un pryd y materion sy'n berthnasol i gyd-destunau gwahanol iechyd a gofal cymdeithasol. Ydych chi o'r farn ein bod, ar y cyfan, wedi llwyddo i sicrhau cydbwysedd yn hyn o beth? A oes yna unrhyw beth yn y Cod y dylid, yn eich tyb chi, ei newid er mwyn helpu i wella hyn?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac anghytuno	Dim ymateb
15	6	0	3	20	2
33%	13%	0%	7%	43%	4%

Crynodeb: Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 44% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno neu'n tueddu i gytuno bod y Cod wedi cyflawni cydbwysedd llwyddiannus, gyda 44% ddim yn cytuno nac anghytuno. Gwnaed ystod o bwyntiau mewn perthynas â meysydd lle gellid gwella'r Cod, er enghraifft, cryfhau cyfeiriadau at ddulliau seiliedig ar hawliau, yn enwedig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, ac ymgysylltu/rhyngweithio â'r ddarpariaeth eiriolaeth bresennol ar gyfer plant a phobl ifanc, eglurder ynghylch cymhwyso lle'r oedd lleoliadau'n darparu cymysgedd o wasanaethau'r GIG a gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r GIG neu'n darparu gwasanaethau oddi ar y safle, cyrchu gwasanaethau a gomisiynwyd yn Lloegr, mwy o fanylion am ddisgwyliadau am faterion megis amseroldeb, rhestru amgylchiadau/rhesymau y gellid gwrthod ymweliad, eglurder ynghylch disgwyliadau ar ymarferwyr unigol, materion sy'n ymwneud ag ymweliadau dirybudd/ar y diwrnod, cyfeiriadau cryfach at ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ati. Roedd rhai sylwadau yn ymdrin â materion sydd y tu allan i gylch gwaith y cod i raddau helaeth, er enghraifft, diffinio cylch gwaith Corff Llais y Dinesydd a sefydliadau eraill (y tu hwnt i faterion sy'n ymwneud â mynediad) neu fanylion ynghylch sut y caiff safbwyntiau eu cipio. Roedd y pwyntiau a godwyd mewn ymgynghoriad â Llais yn cynnwys trefniadau rhannu gwybodaeth cyfatebol, pwysigrwydd mynediad cyfartal â gwasanaethau eraill, mynediad at eiriolaeth cwynion, ac adolygu'r Cod ar ôl blwyddyn o'i weithredu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gan fyfyrto ar yr ymateb cadarnhaol ar y cyfan, cymerwyd camau i gryfhau'r cod. Er enghraifft, mae cyfeiriadau at ddulliau sy'n seiliedig ar hawliau wedi'u cynnwys, yn ogystal â chyfeiriadau at y Gymraeg. Mae deunydd ychwanegol wedi'i gynnwys ar leoliadau darpariaeth gymysg a'r disgwyliad ar wasanaethau a gomisiynwyd a hwyluso ymweliadau, gan gydnabod bod y Cod yn cwmpasu gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru neu mewn mannau eraill.

Diwygiwyd y testun i roi pum diwrnod gwaith fel enghraifft o'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn ymateb prydlon mewn achos syml, a rhoddwyd enghreifftiau o faterion a allai arwain at wrthodiad. Mae'r cod hefyd wedi'i wneud yn fwy eglur i nodi bod disgwyliadau ynghylch hwyluso mynediad ac ati yn disgyn ar ddarparwyr yn hytrach nag unigolion, ac y dylai'r trothwy ar gyfer mynediad ar gyfer Llais fod yn debyg i'r trothwy ar gyfer gwasanaethau eraill. Mae'r Cod hefyd wedi'i ddiwygio i egluro bod ymweliadau ar y diwrnod yn bosibl, er nad yw hyn yn newid yr angen i ofyn am fynediad. Mae cyfeiriadau hefyd wedi'u mewnosod at ddwyochredd ynghylch rhannu gwybodaeth, mynediad at gwynion, ac at y bwriadau ynghylch adolygu'r Cod.

Cwestiwn 02: Yn benodol, yn y Cod rydym wedi ceisio dangos gwahaniaeth rhwng safleoedd sensitif (megis y rhai mae pobl yn byw ynddynt, neu y rhai sydd â mynediad rheoledig) a safleoedd eraill y mae mynediad cyhoeddus iddynt yn agored i raddau helaeth, a thrin y rhain yn wahanol. A yw hwn yn wahaniaeth defnyddiol? A oes unrhyw ffyrdd y byddech chi'n ei newid? A oes unrhyw fathau eraill o safleoedd y byddech chi'n eu hystyried yn 'sensitif' at y dibenion hyn?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac anghytuno	Dim ymateb
11	10	1	1	17	6
24%	22%	2%	2%	37%	13%

Crynodeb: Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 46% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno neu'n tueddu i gytuno bod y gwahaniaeth rhwng safleoedd sensitif a safleoedd eraill yn ddefnyddiol. Roedd 36% o'r ymatebwyr ddim yn cytuno nac anghytuno. Gofynnodd ymatebydd am fwy o enghreifftiau, ac awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai safleoedd ychwanegol gael eu hystyried yn 'sensitif', er enghraifft, wardiau iechyd meddwl arhosiad hir a wardiau cleifion mewnol a rhai cyfleusterau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch y prawf sensitifrwydd mewn perthynas â lleoliadau gofal cymdeithasol preswyl mwy o faint. Yn gysylltiedig â'r cwestiwn hwn, nododd un ymatebydd bwysigrwydd parch at ofodau preifat fel un o egwyddorion allweddol ymgysylltu. Roedd y pwyntiau a godwyd mewn ymgynghoriad ar y Cod gyda Llais yn cynnwys sefyllfa wardiau cleifion mewnol a safleoedd sydd â mynediad rheoledig.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gan ymateb i'r adborth a ddarparwyd, rhoddwyd enghreifftiau o leoliadau mwy a llai sensitif ac mae rhai lleoliadau sensitif ychwanegol a awgrymwyd wedi'u hychwanegu, heb fwriadu darparu rhestr gynhwysfawr. Ar ôl adolygu'r Cod drafft, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y ddarpariaeth o ran lleoliadau gofal cymdeithasol preswyl mawr yn cynnwys tri maen prawf, gyda 'mynediad [cyhoeddus] agored' yn un ohonynt, ochr yn ochr â maint y lleoliad ac argaeledd gofodau cyhoeddus. Gwnaed awgrymiadau eraill am eglurder sydd bellach wedi'u gweithredu. Wrth ymateb i sylw cysylltiedig, ychwanegwyd

testun hefyd i danlinellu'r ffaith bod parch at fannau preifat yn un o'r egwyddorion allweddol.

Cwestiwn 03: Mae'r cod yn ystyried amgylchiadau y gall Corff Llais y Dinesydd fod am ymweld â phobl yn eu hanheddau preifat, ac yn eu gofodau preifat o fewn safleoedd megis cartrefi gofal. Ydych chi'n teimlo bod y Cod yn trin y mater hwn yn gywir? A oes unrhyw welliannau y byddech chi'n eu hawgrymu?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac anghytuno	Dim ymateb
8	11	2	1	17	7
18%	24%	4%	2%	37%	15%

Crynodeb: Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 42% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno, neu'n tueddu i gytuno, bod y Cod drafft yn trin y mater o geisiadau am fynediad i ofodau preifat pobl yn gywir. Roedd 36% o'r ymatebwyr ddim yn cytuno nac anghytuno. Roedd un ymatebydd yn cymeradwyo'r dull a amlinellwyd. Gwnaed ystod o bwyntiau ynghylch y cwestiwn o fynediad i anheddau/gofodau preifat, gan gynnwys mewn perthynas â chydysniad a diffyg galluedd, dulliau sy'n ystyriol o drawma, hyfforddiant priodol ar gyfer ymwelwyr Corff Llais y Dinesydd, data a phreifatrwydd. Codwyd rhai materion hefyd a oedd yn fwy priodol i weithdrefnau ymweld Corff Llais y Dinesydd yn hytrach na'r Cod, er enghraifft, mewn perthynas â manylion trefniadau i ymweld â pherson yn ei gartref neu hyfforddiant gofynnol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gan fyfyrir ar y sylwadau a wnaed mewn perthynas â mynediad i gartrefi/gofodau preifat, gwnaed ystod o ychwanegiadau at y Cod drafft. Er enghraifft, ychwanegwyd dolen i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol (MCA) a chyfeiriadau at yr MCA, ac mae cyfeiriad at y canllawiau ar dulliau sy'n ystyriol o drawma wedi'i gynnwys hefyd. Mae'r ddau yn berthnasol i gwestiynau am gydysniad a galluedd. Mae'r Cod hefyd bellach yn nodi y bydd angen i Gorff Llais y Dinesydd a darparwyr fodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â galluedd a diogelu data ac yn cyfeirio at hyfforddiant priodol i ymwelwyr.

Cwestiwn 04: Yn y canllawiau statudol drafft ar sylwadau, rydym wedi nodi'r nodweddion a ddylai fod yn perthyn i weithdrefnau'n ymwneud â sylwadau, yn hytrach na phennu'r gweithdrefnau eu hunain. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn? A oes yna unrhyw beth y gellid ei newid yn y canllaw statudol er mwyn cryfhau hyn? A oes unrhyw fanylyn y gellid ei hepgor er mwyn gwneud y canllawiau'n fwy effeithiol neu'n haws eu defnyddio?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac	Dim ymateb
--------	-----------------	--------------------	-----------	--------------------	------------

				anghytuno	
10	11	1	1	13	10
22%	24%	2%	2%	28%	22%

Crynodeb: Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 46% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r dull o nodi nodweddion yn hytrach na phennu prosesau, ac roedd 29% ddim yn cytuno nac anghytuno. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid pennu prosesau, ond croesawodd eraill y disgrisiwn a roddwyd gan ddull a arweinir gan nodweddion neu egwyddorion. Awgrymwyd amrywiaeth o newidiadau i'r canllawiau drafft. Er enghraifft, gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am i'r gyfres o ddogfennau gael eu croesgyfeirio (yn enwedig y canllawiau ar newidiadau i wasanaethau a sylwadau statudol, ond soniwyd hefyd am gysylltiadau rhwng y canllawiau ar sylwadau statudol a'r Cod Ymarfer ar Fynediad). Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at gyhoeddi'r sylwadau a/neu'r ymatebion. Gwnaed pwyntiau hefyd mewn perthynas â'r modd yr ymdrinnir â sylwadau a oedd yn berthnasol i ddarparwyr a gomisiynwyd, ac i'r modd yr ymdrinnir â sylwadau sy'n rhychwantu mwy nag un o gyrff y GIG. Roedd yna hefyd nifer o awgrymiadau ar gyfer cynhwysiant a allai fod â gwerth cyffredinol ond na fyddai'n briodol eu cynnwys yn yr hyn sy'n gyfystyr â chanllawiau statudol i awdurdodau lleol a chyrrff iechyd ar ymdrin â sylwadau gan Gorff Llais y Dinesydd, yn hytrach na chanllawiau ar gyfer Corff Llais y Dinesydd ei hun neu ganllawiau cyffredinol ar ymgysylltu. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau am ymdrin â chwynion, canllawiau ar gyfer Corff Llais y Dinesydd ar ei brosesau, a nodi disgwyliadau ehangach ynghylch ymgysylltu â dinasyddion ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff iechyd lleol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Datblygwyd y canllawiau statudol ar y sail na fyddai pennu prosesau ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff y GIG ddefnyddiol ac y byddai o bosibl yn dyblygu gwaith. Yn hytrach, ystyriwyd y byddai'n well nodi'r nodweddion y dylai fod gan y prosesau/gweithdrefnau, fel y gellid cymhwyso'r rhain i brosesau sydd ar gael o fewn y cyrrff yr effeithir arnynt. Nodwn fod hyn wedi cael ei gefnogi'n gyffredinol yn yr ymarfer ymgynghori ei hun. Dim ond lleiafrif o randdeiliaid a awgrymodd ddull rhagnodol o bennu gweithdrefnau. O'r herwydd, mae'r canllawiau terfynol yn canolbwyntio ar y nodweddion y dylai fod gan weithdrefnau o'r fath. Mae'r canllawiau diwygiedig hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddeunydd ychwanegol i sicrhau, pan gyflwynir sylwadau i awdurdod lleol neu gorff iechyd am ddarparwr trydydd parti, eu bod yn cael eu rhannu'n briodol â'r darparwr. Wrth ymateb i adborth ar yr ymgynghoriad, mae paragraff ychwanegol wedi'i fewnosod ynghylch sylwadau sy'n rhychwantu mwy nag un o gyrff y GIG, gan nodi y dylai cyrrff o'r fath gydweithio i ymateb ar y cyd lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn adlewyrchu cynnwys sydd eisoes wedi'i ddrafftio mewn perthynas â sylwadau sy'n rhychwantu iechyd a gofal cymdeithasol. Mewnosodwyd cyfeiriadau ychwanegol at gyhoeddi a hygyrchedd gwybodaeth, ac mae testun hefyd wedi'i fewnosod mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, y Gymraeg a diogelu. Yn olaf, er nad yw'n bwnc i'r canllawiau fynd i'r afael ag ef yn fanwl, cydnabuwyd ffurfiau eraill o ymgysylltu â dinasyddion, neu bartneriaid a allai fod yn gysylltiedig ag ymgysylltu o'r fath, a mewnosodwyd cyfeiriadau yn y canllawiau terfynol.

Cwestiwn 05: Yn y canllawiau ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a oes unrhyw beth y gellid ei newid i gryfhau'r canllawiau, neu unrhyw fanylyn defnyddiol ar goll? A oes unrhyw fanylyn y gellid ei hepgor er mwyn gwneud y canllawiau'n fwy effeithiol neu'n haws eu defnyddio?

Crynodeb: Cafwyd nifer o awgrymiadau gan yr ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys galwad am ganllawiau ychwanegol ar wahanol 'raddfeydd' newid (e.e. sylweddol, cymedrol, mân) ac ar yr ymgynghori/ymgysylltu priodol sy'n ymwneud â phob un o'r rheini, galwadau am fanylion ychwanegol ar ddisgwyliadau ynghylch amlder ymgysylltu a monitro'r cyfranogiad cysylltiedig, cais am eglurder ar y sefyllfa ac opsiynau posibl lle mae anghytundebau rhwng Corff Llais y Dinesydd a chorff y GIG, croesgyfeirio'r dogfennau yn y pecyn ymgynghori (y canllawiau hyn ynghyd â'r canllawiau statudol ar sylwadau a'r cod ymarfer ar fynediad), cryfhau'r cyfeiriadau at gydweithio â llywodraeth leol, ac egluro'r sefyllfa ar ymgynghori ac ymgysylltu lle mae gwasanaethau'n croesi ffiniau. Roedd awgrymiadau hefyd y gellid llunio dogfen dempled.

Ymateb Llywodraeth Cymru: I fynd i'r afael â'r sylwadau hyn, gwnaed nifer o newidiadau i'r canllawiau terfynol fel y'u cyhoeddwyd. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ychwanegol ar wahanol 'raddfeydd' newid ac ar yr ymgynghori/ymgysylltu priodol, newidiadau i adran 7 o'r canllawiau ar anghytundebau, cyfeiriadau ychwanegol at weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a thestun yn cydnabod effaith draws-sectoraidd bosibl newidiadau i wasanaethau'r GIG ac, yn olaf, gyfeiriad at y defnydd o gomisiynu i osod gofynion priodol mewn perthynas ag ymgynghori ac ymgysylltu ar newidiadau i wasanaethau lle mae gwasanaethau'n croesi ffiniau. Bydd yr awgrym y gellid llunio dogfen dempled yn destun ystyriaeth bellach o'r manteision a'r anfanteision, a gellid ei ymgorffori mewn adolygiad blwyddyn o weithredu'r canllawiau.

Cwestiwn 06: A ydych yn credu y dylai fod gofyniad cyfreithiol i gyrff y GIG gydymffurfio â'r canllawiau ar newidiadau i wasanaethau neu a ddylent fod yn ganllawiau arfer gorau? Defnyddiwch y blwch testun i esbonio eich rhesymau.

Crynodeb: O'r ymatebwyr hynny a fynegodd farn (y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd), roedd canrannau cyfartal (26% yr un) o blaid canllawiau rhwymol a chanllawiau arfer da, tra bod 13% yn trafod y cwestiwn ond heb nodi ffafriaeth. Ni atebodd 35% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd y rhai a oedd o blaid rhoi grym cyfreithiol i'r canllawiau yn dod yn bennaf o'r trydydd sector, aelodau'r cyhoedd neu â chysylltiadau na ellid eu hadnabod yn rhwydd, tra bod yr ymatebion o blaid gadael y canllawiau yn ddewisol yn bennaf gan gyrff y GIG. Roedd pwyntiau allweddol a wnaed yn ymwneud â'r cydbwysedd rhwng gadael rhywfaint o ddisgresiwn ar gyfer gyrff y GIG a dymunoldeb rhywfaint o ragnodi/mandadu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Ar ôl ystyried y cydbwysedd barn cyfartal, mae'r opsiwn i gyfarwyddo gyrff y GIG i roi sylw i'r canllawiau yn cael ei ddal yn ôl i'w ystyried ymhellach yng ngoleuni profiad blwyddyn weithredol gyntaf Llais. Mae

Gweinidogion eisoes yn bwriadu adolygu'r canllawiau newidiadau i wasanaethau ar ôl blwyddyn, a byddai ystyried priodoldeb defnyddio'r pŵer cyfarwyddyd yn rhan naturiol o'r ymarfer hwnnw.

Cwestiwn 07: A fyddai unrhyw un o'r dogfennau yn elwa ar enghreifftiau? Os felly, esboniwch a/neu defnyddiwch y blwch testun i rannu unrhyw enghreifftiau rydych yn ymwybodol ohonynt, ac rydych yn fodlon iddynt gael eu hystyried i'w cynnwys yn y fersiynau terfynol.

Crynodeb: Atebodd 22 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ni ddarparwyd unrhyw enghreifftiau ymarferol, ond gwnaed rhai awgrymiadau ar gyfer enghreifftiau (megis mewn perthynas â ffurf sylwadau, gwahanol raddfeydd newidiadau i wasanaethau'r GIG, y rhyngwyneb proses cwynion sefydliadol/Corff Llais y Dinesydd/ombwdsmon, neu'r cydgysylltu rhwng Corff Llais y Dinesydd a phartïon eraill megis arolygiaethau neu Gomisiynwyr statudol). Gwnaed cyfeiriadau eraill mewn manau eraill at roi enghreifftiau o sut y gellid gweithredu'r Cod Ymarfer ar fynediad mewn gwahanol leoliadau. Roedd rhai yn credu y byddai enghreifftiau o gymorth yn y prif ddogfennau canllaw, tra bod un ymatebydd o'r farn bod y rhain yn fwy priodol ar gyfer canllawiau gweithredol (a fyddai'n eistedd o dan y dogfennau yr ymgynghorwyd arnynt). Roedd awgrymiadau hefyd y byddai'n well creu enghreifftiau o brofiad o weithredu o dan y gofynion newydd a nodir yn y dogfennau. Awgrymodd un ymatebydd na fyddai enghreifftiau o gymorth ac awgrymodd un arall fod yr wybodaeth yn y canllawiau yn ddigonol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad y byddai'r enghreifftiau gorau yn cael eu cynhyrchu drwy brofiad o weithredu'r systemau newydd a nodir yn y dogfennau. Gan fod Gweinidogion Cymru wedi nodi ar wahân eu bwriad i adolygu ac, os oes angen, ddiwygio'r dogfennau ar ôl y flwyddyn gyntaf o weithredu, bydd y mater o enghreifftiau yn cael ei ystyried ymhellach bryd hynny. Cododd nifer o ymatebwyr y mater o nodi gwahanol raddfeydd newidiadau i wasanaethau'r GIG ac ymdriniwyd â hyn o fewn y canllawiau diwygiedig ar newidiadau i wasanaethau.

Cwestiwn 08: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y ffyrdd o weithio a nodir yn y dogfennau hyn ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Croesewir hefyd eich barn ar sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu sut y gallai effeithiau negyddol gael eu lliniaru.

Crynodeb: Atebodd 28 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys awgrymiadau y dylai mwy o bwyslais gael ei roi ar ymgysylltu ag unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys drwy grwpiau penodol neu sefydliadau cynrychiadol ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchoddedig), a gwnaed nodyn o bwysigrwydd defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Ystyriwyd bod y Cod (drwy hwyluso mynediad at unigolion yn eu cartrefi eu hunain neu leoliadau gofal cymdeithasol) yn cael effaith gadarnhaol bosibl, gan ddileu rhai o'r rhwystrau y gallai rhai unigolion eu hwynebu o ran cludiant, mynediad a

dealltwriaeth, a hefyd yn darparu gwybodaeth werthfawr am eu profiadau a'u barn am fodelau gwasanaeth sy'n mynd y tu hwnt i gylch gwaith yr ymweliadau arolygu ac ymweliadau cydymffurfio â chontractau arferol, gan lywio dyluniad gwasanaethau a phatrymau comisiynu o bosibl. Awgrymwyd y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol hyn drwy gael staff/aelodau/gwirfoddolwyr Corff Llais y Dinesydd sy'n fedrus mewn amrywiol ddulliau cyfathrebu, er enghraifft, Iaith Arwyddion Prydain, Makaton, ieithoedd lleiafrifol, a nododd ymatebwyr yr angen i ystyried sut i gyfathrebu/ymgysylltu â'r rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar a gwneud darpariaeth briodol i'r rhai â Dementia. Gwnaeth un ymatebydd sylw ar yr angen i Gorff Llais y Dinesydd fod â dull gwahanol o ymgysylltu â phobl a nododd yr her o ymgysylltu mewn cyd-destun lle nad oedd pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig eisoes yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn lleoliadau iechedd. Nododd rhai ymatebwyr na ddylai ymdrechion i gynnwys dinasyddion ddibynnu ar gyfryngau ar-lein yn unig neu ddigwyddiadau cymunedol cyffredinol ac y dylai'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol gael cyfleoedd cyfartal i gymryd rhan. Cyfeiriwyd hefyd at y defnydd o fformatau hygyrch. Soniodd ymatebydd arall yn ffafriol am y modd yr ymddrinir â'r materion hyn yn y Cod a chyfeiriodd hefyd at y defnydd o ddogfennaeth Hawdd ei Deall. Teimlai un ymatebydd fod effaith gyffredinol y cynigion fel y'u drafftwyd ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn debygol o fod yn gadarnhaol. Nododd sylw arall, yn cyfeirio at bobl hŷn, os ystyrir cymhlethdod angen yn llawnach - megis darparu gwasanaethau gofal iechedd a ddefnyddir yn aml yn agosach i gartrefi pobl - y bydd hyn yn ei dro hefyd yn diwallu anghenion llai cymhleth y boblogaeth. Cyfeiriodd yr un ymatebydd hefyd at y potensial i ganiatáu mwy o gyfleoedd i bobl hŷn gymryd rhan mewn penderfyniadau ar ofal iechedd sy'n bwysig iddynt. Roedd hyfforddiant priodol yn cael ei ystyried yn bwysig i sicrhau effeithiau cadarnhaol i bobl â nodweddion gwarchodedig a chyfeiriwyd at Gorff Llais y Dinesydd yn defnyddio Fframwaith ar gyfer ymgysylltu â phobl hŷn. Gwnaed awgrymiadau ynghylch ychwanegu cyfeiriadau ychwanegol at gyfreithiau perthnasol yn y canllawiau ar newidiadau i wasanaethau. Gwnaeth ymatebydd sylwadau ar bwysigrwydd rhoi cyhoeddusrwydd i'r corff newydd, a gwnaed cyfeiriad hefyd at gydnabod rôl Corff Llais y Dinesydd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau a ddarparwyd, gan gynnwys cydnabod cyfraniad cadarnhaol posibl y gyfres o ddogfennau (cod ymarfer, canllawiau ar sylwadau a chanllawiau ar newidiadau i wasanaethau) ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig. Mewn perthynas â'r awgrymiadau penodol am welliannau i'r dogfennau, mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth bellach (megis Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg 2011) wedi'u hadlewyrchu yn y canllawiau ar newidiadau i wasanaethau. Mae cyfeiriadau ychwanegol at blant a phobl ifanc wedi'u mewnosod yn y Cod Ymarfer ac mae cyfeiriadau pellach at hygyrchedd dogfennau wedi'u mewnosod yn y canllawiau newidiadau i wasanaethau a'r Cod Ymarfer.

Cwestiwn 09: Yn eich barn chi, beth yw effeithiau eraill tebygol y ffyrdd o weithio a nodir yn y dogfennau hyn? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft, fanteision ac anfanteision; costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ac arbedion; materion

ymarferol eraill. Byddai croeso hefyd i'ch barn ar sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol.

Crynodeb: Atebodd 27 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol ar yr effeithiau yn gyffredinol, ac ar yr hyblygrwydd yn y canllawiau (e.e. mewn perthynas â newidiadau i wasanaethau) a fyddai'n caniatáu i ymgynghoriadau (ac felly costau) fod yn gymesur â natur y newid a gynigir. Nodwyd hefyd y gallai'r cynnig i ymweld â sefydliadau gofal sicrhau mwy o gyfranogiad a rhyngweithio i ystod ehangach o bobl, gyda phosibilrwydd y gallai lleisiau pobl gael eu clywed yn fwy cyson ar lefel strategol. Roedd un ymatebydd o'r farn bod pwyslais ar gydweithio yn y cod drwyddo draw a'r ymreolaeth i ddarparwyr wneud penderfyniadau ystyriol ynghylch mynediad i leoliadau. Dywedodd un ymatebydd, o safbwynt awdurdod lleol, y bydd angen rhywfaint o gyfrifoldeb ychwanegol dros ryngweithio â Chorff Llais y Dinesydd i sicrhau perthynas waith effeithiol a allai olygu costau ychwanegol, ond a allai o bosibl ddarparu effeithlonrwydd tymor hwy pe bai awdurdod yr ymatebydd yn gallu symleiddio'n effeithiol y ffordd yr oedd y corff yn ymgysylltu â phobl am ofal a gwasanaethau cymdeithasol ar draws gwasanaethau plant ac oedolion ac alinio ei waith ymgysylltu â gwaith ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd. Gwnaeth ymatebion eraill sylwadau ar y cwmpas ar gyfer cydweithredu a phartneriaeth, gan gyfeirio at y cyfleoedd i archwilio ystod o safbwyntiau ac adborth gan gymheiriaid ac unigolion fel ei gilydd, wrth werthuso gwelliannau posibl a sut i'w gweithredu, ac at brofiad blaenorol CICau yn y maes hwn; gwnaeth ymatebydd arall sylwadau ar bosibilrwydd achosion unigol i annog newid. Awgrymodd un ymatebydd fod newidiadau i wasanaethau o dan y cynigion newydd yn fwy tebygol o adlewyrchu buddiannau ac anghenion ehangach pobl ledled Cymru sy'n defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys unigolion sy'n byw y tu allan i ardaloedd daearyddol byrddau iechyd darparwyr unigol. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar y posibilrwydd o golli'r gofyniad statudol i gyrrff y GIG yn Lloegr ymgysylltu ac ymgynghori â CICau yng Nghymru ar newidiadau i wasanaethau a sut y gellid lliniaru hyn. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd bod defnyddwyr gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn cael cyfle cyfartal i rannu barn. Cyfeiriodd un ymatebydd at bwysigrwydd bod cyrff sy'n derbyn sylwadau yn gwerthfawrogi y byddai'r rhain yn adlewyrchu diogelwch cleifion, archwiliad clinigol a gwella ansawdd, yn ogystal â'r swyddogaethau mwy amlwg yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd defnyddio adnoddau yn briodol. Cyfeiriodd un ymatebydd at gysylltu ag arolygiaethau yng Nghymru a'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio i wella rôl pob sefydliad, a fyddai'n fuddiol iawn yn ei dyb ef.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau a ddarparwyd, gan gynnwys cydnabod cyfraniad cadarnhaol posibl y gyfres o ddogfennau (cod ymarfer, canllawiau ar sylwadau a chanllawiau ar newidiadau i wasanaethau) mewn perthynas â gwella llais y dinesydd, cydweithio a phartneriaeth, a gwella gwneud penderfyniadau.

Cwestiwn 10: Hoffem glywed eich barn ynglŷn ag effaith ein cynigion ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y

Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? (Nodwch a yw eich ymateb yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad i Safleoedd / y Canllaw Statudol ar Sylwadau / y Canllawiau ar gyfer Newidiadau i Wasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol).

Crynodeb: Atebodd 22 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Mewn perthynas â'r Canllawiau Statudol ar Sylwadau, dywedodd rhai ymatebwyr y gallai ceisio barn defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith gael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y Gymraeg, drwy sicrhau bod y GIG a chyrrff gofal cymdeithasol yn derbyn adborth gan y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg a bod sylw priodol yn cael ei roi i hyn wrth newid neu wella gwasanaethau. Gallai hyn hefyd gynnwys digonolrwydd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriodd un ymgynghorai at rywfaint o dystiolaeth bod defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn amharod i ofyn am wasanaeth yn Gymraeg os na chafodd ei gynnig yn y lle cyntaf, a hefyd dystiolaeth bod derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg i'r rhai sy'n dymuno hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar eu profiad a'u hiechyd/lles meddyliol. Cyfeiriodd ymatebydd arall at rôl arwain Corff Llais y Dinesydd wrth sicrhau bod y camau gweithredu yng nghynllun gweithredu Mwy na Geiriau yn cael eu gweithredu ar draws sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfle i osod esiampl o ran cynnig gweithredol y Gymraeg. Dywedodd ymatebydd arall nad oedd wedi nodi unrhyw effeithiau sylweddol ar y Gymraeg, a dywedodd un arall fod hyn eisoes yn cael ei ystyried yn y dull a amlinellwyd. Awgrymodd un ymatebydd y dylid gwneud cyfeiriad penodol at Ddeddf yr Iaith Gymraeg, ac awgrymodd un arall y dylid cyfeirio at Safonau'r Gymraeg, ac awgrymodd trydydd y dylid nodi disgwyliadau ar gyfer gwahanol bartïon mewn perthynas â hwyluso ymgysylltiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Pwysleisiodd un ymatebydd bwysigrwydd cydnabod pan fydd person dwyieithog wedi cael diagnosis o ddementia, hyfedredd mewn ail iaith sy'n cael ei golli gyntaf yn aml. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at ddisgwyliadau penodol blaenorol y byddai cyrrff y GIG yn Lloegr yn ymgynghori â'r Cyngor Iechyd Cymuned mewn perthynas â newidiadau i gyrrff iechyd a oedd, yn ei dro, yn creu sbardun i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hadlewyrchu mewn prosesau ymgysylltu ac ymgynghori.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau a ddarparwyd, gan gynnwys cydnabod cyfraniad cadarnhaol posibl y gyfres o ddogfennau (cod ymarfer, canllawiau ar sylwadau a chanllawiau ar newidiadau i wasanaethau) at y Gymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio. O ran gwelliannau penodol a awgrymwyd i'r dogfennau, gwnaed cyfeiriadau penodol at Ddeddf yr Iaith Gymraeg ac at Safonau'r Gymraeg yn y canllawiau ar newidiadau i wasanaethau ac at Safonau'r Gymraeg yn y canllawiau statudol ar sylwadau. Mae'r cod ymarfer yn nodi y dylid gwneud darpariaeth i gefnogi unigolion i fynegi eu barn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r canllawiau ar newidiadau i wasanaethau hefyd yn cynnwys disgwyliad y dylai sefydliadau'r GIG sy'n delio â gwasanaethau Cymru-Lloegr neu

DU gyfan ddiweddar unrhyw gontractau ar gyfer gwasanaethau y maent yn eu comisiynu gyda chymal i ddarparwyr ymgysylltu ac ymgynghori â nhw (a'u dinasyddion) ar unrhyw newidiadau arfaethedig a allai gael effaith ar eu cleifion. Dylai ymgysylltu ac ymgynghori o'r fath gynnwys Llais a sefydliadau eraill y gallai'r newid effeithio arnynt. Wrth ymgysylltu ac ymgynghori, dylai'r darparwr fod â deunyddiau ar gael yn y Gymraeg hefyd.

Cwestiwn 11: Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r cynigion gael eu llunio neu eu newid fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. (Nodwch a yw eich ymateb yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad i Safleoedd / y Canllaw Statudol ar Sylwadau / y Canllawiau ar gyfer Newidiadau i Wasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol).

Crynodeb: Atebodd 21 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Mewn perthynas â'r Cod Ymarfer ar Fynediad, awgrymodd un ymatebydd y gallai cynnwys cyfeiriad at sicrhau bod staff Corff Llais y Dinesydd yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg sicrhau effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, i gryfhau unrhyw ymrwymiad i sicrhau bod cleifion yn gallu lleisio unrhyw bryderon yn eu dewis iaith. Cyfeiriwyd hefyd at sicrhau bod hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr/staff i'w hannog/galluogi i ddysgu Cymraeg. Dywedodd ymatebydd arall nad oeddent yn nodi unrhyw effeithiau sylweddol ar y Gymraeg, tra nododd ymatebydd pellach y byddai'r darpariaethau yr ymgynghorwyd arnynt yn helpu i wella cynnwys siaradwyr Cymraeg o fewn dull system gyfan. Yn benodol, roeddent o'r farn y byddai darparu mynediad cyfartal i rannu barn gyda Chorff Llais y Dinesydd yn eu dewis iaith yn gwella ansawdd profiad defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau iechyd a lles, gan gynnwys i siaradwyr Cymraeg. Dywedodd un ymatebydd hefyd y gallai mynediad i safle helpu Corff Llais y Dinesydd i nodi gweithgareddau pellach o fewn ysbryd Mwy na Geiriau y gallai darparwyr eu cyflwyno i gynyddu effeithiau cadarnhaol y Gymraeg mewn lleoliadau gofal.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau a ddarparwyd, gan gynnwys cydnabod effeithiau cadarnhaol posibl y gyfres o ddogfennau (cod ymarfer, canllawiau ar sylwadau a chanllawiau ar newidiadau i wasanaethau) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gan fyfyrion ar y sylwadau a wnaed, mae'r cod ymarfer yn nodi y dylid gwneud darpariaeth i gefnogi unigolion i fynegi eu barn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Crynodeb: Cododd 24 o ymatebwyr amrywiaeth o faterion o dan y cwestiwn hwn. Roedd y rhain yn cynnwys rheoli cwynion, meini prawf ar gyfer penodi aelodau

bwrdd Corff Llais y Dinesydd, annibyniaeth cadeirydd Corff Llais y Dinesydd, cyfansoddiad, rôl, trefniadaeth leol a gwybodaeth am Gorff Llais y Dinesydd, hygyrchedd a chynnwys yr ymgynghoriad, y ddyletswydd i 'ystyried' a chreu (drwy'r dogfennau) dyletswyddau newydd, cyfleusterau i Gorff Llais y Dinesydd gyfathrebu mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg ac i gynhyrchu gwybodaeth amdano'i hun mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch, cyfathrebu diben Corff Llais y Dinesydd a disgwyliadau ar wasanaethau, preifatrwydd gwybodaeth weladwy, recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr, mecanweithiau ar gyfer codi pryderon am weithredoedd Corff Llais y Dinesydd ei hun, ymgysylltiad Corff Llais y Dinesydd â'r trydydd sector a gwasanaethau a gomisiynir yn genedlaethol, datblygu cynllun blynyddol Corff Llais y Dinesydd ac ymgynghori'n ddwyieithog arno, gohebiaeth warchoddedig mewn perthynas â'r rhai yn yr ystad ddiogel, a rôl yr agenda cynhwysiant digidol wrth drawsnewid gwasanaethau. Hefyd, cododd ymatebwyr y posibilrwydd o weithio ar y cyd â Chorff Llais y Dinesydd i sicrhau gwelliannau i'r system iechyd a gofal cymdeithasol a siaradwyd yn gadarnhaol am gyfraniad posibl Corff Llais y Dinesydd yn y dyfodol at rannu adborth gan y cyhoedd â sefydliadau'r GIG. Awgrymwyd hefyd rôl i Gorff Llais y Dinesydd o ran cynorthwyo a chynghori mewn perthynas â chynnal asesiadau o anghenion poblogaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r amrywiaeth o faterion a godwyd o dan y cwestiwn hwn. Lle y bo'n berthnasol i'r pynciau a oedd yn destun ymgynghoriad, mae'r rhain wedi cael sylw o dan y cwestiwn/cwestiynau perthnasol uchod.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhif Ymatebydd

- 1 Dienw
- 2 Michael Parry
- 3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- 4 Dienw
- 5 Thomas Brooks
- 6 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- 7 Dienw
- 8 Dienw
- 9 Dienw
- 10 Dienw
- 11 Thomas Byron Barnett
- 12 Dienw
- 13 Dienw
- 14 Gordon Hughes
- 15 Dienw
- 16 Comisiwn Pobl Hŷn
- 17 Cynghair Pobl Hŷn Cymru
- 18 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- 19 Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- 20 Liz Liddall
- 21 Helen Twidle
- 22 Dienw
- 23 Dienw
- 24 Dorothy Edwards
- 25 Arolygiaeth Gofal Cymru
- 26 GMC Cymru
- 27 Conffederasiwn GIG Cymru
- 28 Julie Thomas

- 29 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
- 30 RNIB
- 31 Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg
- 32 Y Coleg Nyrsio Brenhinol
- 33 Cymdeithas Alzheimer Cymru
- 34 Dienw
- 35 Dienw
- 36 Grace Krause
- 37 Mark Thornton
- 38 Lisa Miller
- 39 Fforwm Gofal Cymru
- 40 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- 41 Ni roddwyd enw
- 42 Comisiynydd Plant Cymru
- 43 Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned
- 44 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- 45 Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- 46 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru